

# Trivallis.

## Strategaeth Ddigidol a Data.



[www.trivallis.co.uk](http://www.trivallis.co.uk)

# Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Dechnoleg hon yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar sylfeini digidol cryf i ddarparu rhagoriaeth i'n cwsmeriaid, ein tenantiaid a'n cymunedau. Yn canolbwyntio ar bedair egwyddor allweddol – Seiberddiogelwch a Seilwaith, Ansawdd Data, Deallusrwydd Artiffisial Moesegol, a Rhagoriaeth Gwasanaeth – mae'n amlinellu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a fydd yn llywio ein dyfodol digidol. Bydd llwyddiant yn dibynnu nid yn unig ar y dechnoleg rydyn ni'n ei defnyddio ond hefyd ar y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd fel sefydliad, gan gofleidio newid a sicrhau bod pob datblygiad yn dod â ni'n agosach at y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

# Gweledigaeth

Cyflawni cryfder a gwydnwch digidol hirdymor trwy arweinyddiaeth dechnoleg arloesol a rhagweithiol, gan alinio polisi digidol i gefnogi a galluogi cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol yn llwyddiannus, ar draws pedwar piler rhagoriaeth ddigidol.



## Y sefyllfa bresennol

Mae gennym sylfaen TG gref, gyda seilwaith craidd wedi'i adeiladu ar Microsoft Azure a systemau tai ac ariannol allweddol a ddarperir trwy Microsoft Dynamics. Mae hyn yn darparu amgylchedd diogel, gwydn a seiber-barod i adeiladu arno.

Mae ein tîm Gwella Busnes wedi bod yn allweddol wrth ddarparu'r seilwaith digidol hwn, a chyda'r sylfeini hyn yn eu lle, maen nhw bellach yn gallu symud ffocws tuag at lwybr newydd o ragoriaeth gwasanaeth.

Ochr yn ochr â hyn, bydd ein tîm Data a Mewnwelediadau newydd yn darparu'r capasiti a'r gallu i harneisio data fel sbardun ar gyfer arloesi a gwneud penderfyniadau. Y cam cyntaf a mwyaf hanfodol ar y daith hon yw gwella ansawdd data, sy'n ffurfio sylfaen unrhyw strategaeth llwyddiannus sy'n cael ei sbarduno gan ddata.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud



1.



## Cryfhau seiberddiogelwch

Gan gynnwys efelychiadau gwe-rwydo rheolaidd, darparu hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu lle bo angen. Cynnal cymwysterau sicrhau ansawdd perthnasol gan gynnwys hanfodion seiberddiogelwch.

2.



## Ymwreiddio rhagoriaeth gwasanaeth

Sefydlu swyddogaeth Rhagoriaeth Gwasanaeth sy'n cymhwyso methodoleg darbodus ac yn hyrwyddo prosesau effeithlon, symlach ar draws y sefydliad.

3.



## Gweithredu fframwaith ansawdd data

Gosod a monitro safonau ar gyfer cywirdeb, cyflawnrwydd a chysondeb data ar draws pob maes gwasanaeth.

4.



## Defnyddio Microsoft Power Platform

Gwneud y mwyaf o'n partneriaeth â Microsoft trwy fabwysiadu offer Power Platform i sbarduno awtomeiddio, mewnwelediad ac arloesi.

5.



## Dod â thechnoleg yn agosach at denantiaid

Sicrhau bod pob datrysiad digidol wedi'i gynllunio i wella profiad y cwsmer.



6.



## **Datblygu ein gallu data a mewnwelediadau**

Adeiladu capasiti o fewn y tîm Data a Mewnwelediadau i drawsnewid data crai yn wybodaeth y gellir gweithredu arni.

7.



## **Mynd i'r afael â Ddeallusrwydd Artiffisial mewn ffordd foesegol**

Sicrhau bod egwyddorion moesegol clir yn sail i bob menter Deallusrwydd Artiffisial, gan flaenoriaethu tegwch, tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth cwsmeriaid.

8.



## **Sicrhau llywodraethu a chydymffurfiaeth gadarn**

Cynnal goruchwyliaeth gref o fentrau digidol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau rheoleiddio, moesegol a seiberddiogelwch.

9.



## **Sbarduno arloesi parhaus**

Annog archwilio technolegau, offer ac arferion newydd a all ychwanegu gwerth i gydweithwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd.

10.



## **Mesur a rhannu llwyddiant**

Olrhain cynnydd yn erbyn ein hamcanion digidol a chyfathrebu cyflawniadau i ddangos effaith a meithrin hyder sefydliadol.

# Pedwar piler rhagoriaeth ddigidol



## Seiberddiogelwch a seilwaith

Byddwn yn cynnal sylfaen dechnoleg ddiogel, wydn a modern sy'n amddiffyn ein sefydliad a'n cwsmeriaid. Trwy gryfhau ein seilwaith yn barhaus a mabwysiadu arferion seiberddiogelwch cadarn, byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn seiber-barod ac yn barod ar gyfer bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

## Ansawdd data

Data o ansawdd uchel yw sylfaen sefydliad digidol llwyddiannus. Byddwn yn ymwreiddio fframwaith ansawdd data clir, gan ganolbwyntio ar gywirdeb, cyflawnrwydd a chysondeb ar draws pob maes gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau gwell, mewnwelediad cryfach a gwasanaethau mwy dibynadwy i'n cwsmeriaid.

## Deallusrwydd Artiffisial moesegol

Byddwn yn cymryd agwedd foesegol at fabwysiadu a defnyddio deallusrwydd artiffisial, gan sicrhau tegwch, tryloywder ac atebolrwydd bob tro y'i defnyddir. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â Deallusrwydd Artiffisial mewn ffordd sy'n adeiladu ymddiriedaeth, yn diogelu preifatrwydd ac yn creu manteision diriaethol i gydweithwyr a chwsmeriaid.

## Rhagoriaeth gwasanaeth

Byddwn yn ymwreiddio methodolegau darbodus a phrosesau effeithlon ar draws y busnes, gan greu diwylliant o welliant parhaus. Trwy symleiddio sut rydym yn gweithio ac alinio technoleg ag anghenion busnes, byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n effeithiol, yn hygyrch ac yn canolbwyntio ar denantiaid.

# Prosiectau strategol



## Fframwaith Ansawdd Data

Cyflwyno adroddiadau cywirdeb a chyflawnrwydd ar gyfer yr holl arweinwyr gwasanaeth i sbarduno gwell ansawdd data ar draws y sefydliad.



## Polisi Deallusrwydd Artiffisial moesegol

Datblygu dull i sicrhau bod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio'n foesegol ac yn effeithiol i gefnogi tenantiaid a gwella gwasanaethau heb golli'r elfen ddynol.



## Gwella Busnes a Rhagoriaeth Gwasanaeth

Defnyddio methodolegau darbodus i wella effeithlonrwydd, symleiddio prosesau ac ymwreiddio diwylliant cryfach sy'n canolbwyntio ar denantiaid.




## Achrediad Hanfodion Seiber

Gweithio tuag at gyflawni achrediad Hanfodion Seiber, gyda'r nod hirdymor o sicrhau achrediad Hanfodion Seiber Plws.



## Profion Seiberddiogelwch Rheolaidd

Cynnal efelychiadau gwe-rwydo bob chwarter i gryfhau ymwybyddiaeth cydweithwyr a seiberwydnwch sefydliadol.



## Prosiect Nucleus

Dull sy'n cael ei sbarduno gan ddata ar y cyd â'r dull tîm o amgylch y tenant, sy'n darparu gallu newydd i ddeall gofynion ac anghenion ein cwsmeriaid i wneud ein gwasanaethau'n fwy rhagweithiol.



# Beth sydd ei angen

Er mwyn i'r strategaeth hon lwyddo, rhaid i bob tîm gofleidio'r newid y mae rhagoriaeth gwasanaeth yn ei gynnig. Nid yw rhagoriaeth gwasanaeth yn ymwneud â mireinio prosesau yn unig – mae'n ymwneud ag ymwreiddio ffordd o weithredu sy'n blaenoriaethu effeithlonrwydd, cydweithredu a gwelliant parhaus.

Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad ar y cyd ar draws y sefydliad: i fyfyrion rheolaidd ar ein ffyrdd o weithio o feddylfryd gwella parhaus, a mabwysiadu methodolegau darbodus, ac i weld technoleg fel galluogwr gwell gwasanaethau yn hytrach na dim ond set o offer. Trwy weithio gyda'n gilydd yn y modd hwn, byddwn yn creu diwylliant lle mae rhagoriaeth gwasanaeth yn rhan o bopeth a wnawn – gan gyflawni canlyniadau gwell i'n tenantiaid a'n cydweithwyr fel ei gilydd.







## Risgiau

Bydd y strategaeth ddigidol yn cael ei phrofi'n rheolaidd i nodi'r risgiau seiberddiogelwch allweddol a allai gael yr effaith fwyaf. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Bwrdd yn cymeradwyo strategaethau lliniaru fel rhan o'r broses hon.

Rydym yn gweithredu cofrestr risg ddynamig lle mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn elfen graidd o asesiad risg digidol. Bydd risgiau seiber yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd i sicrhau nad yw eu lliniaru yn peryglu cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol yn gyffredinol.

# Casgliad

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y byddwn yn trosoli technoleg i gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol, dan arweiniad ein hegwyddorion seiberddiogelwch a seilwaith, ansawdd data, deallusrwydd artiffisial moesegol a rhagoriaeth gwasanaeth. Trwy sefydlu trefniadau llywodraethu digidol cryf, meithrin diwylliant o welliant parhaus a sicrhau bod technoleg yn cefnogi cydweithwyr a chwsmeriaid, byddwn yn cryfhau gallu ein sefydliad i gyflawni effaith barhaol a symud ein huchelgeisiau ymlaen.

## Trivallis.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

 **03000 030 888**

 **customerservices@trivallis.co.uk**

Tŷ Pennant  
Stryd y Felin  
Pontypridd  
CF37 2SW

Mae croeso i chi alw heibio yn ystod ein horiau swyddfa:  
Dydd Llun i ddydd Gwener: 9.00am – 3.00pm